**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Gwasanaethau I Oedolion

**Ystafell Bwyllgor 3A, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 10 Hydref 2017 am 3.30 pm**

**Yn Bresennol:** Y Cynghorydd P M Black (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M C Child | V M Evans | P R Hood-Williams |
| J W Jones | A Pugh | G J Tanner |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|
| Tony Beddow | Katrina Guntrip |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Liz Jordan | Swyddog Craffu |
| Alex Williams | Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): C A Holley a/ac S M Jones

---

1 **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

2 **Nodiadau cyfarfod 20 Medi 2017**

Cytunodd y panel ar y nodiadau fel cofnod cywir o'r cyfarfod.

3 **Fframwaith Perfformiad y Gwasanaethau i Oedolion**

Aeth Alex Williams, Pennaeth y Gwasanaethau i Oedolion, drwy'r adroddiad gan dynnu sylw at nifer o bwyntiau. Gwnaed nifer o sylwadau.

Pwyntiau trafod:

- Cwestiwn cyffredinol am y swm mawr o wybodaeth sydd yn yr adroddiad a pha mor hawdd ydyw i'w reoli. Sicrhawyd y panel ei fod yn hylaw.

- Adroddiad Cryno tudalen 4 - Gofal cartref tymor hir. Pryderon ynghylch cynnydd mawr yn yr oriau a ddarperir a chyrraedd y nenfwd gweithredol yn gyflym o ran argaeledd oriau gofal. Mae'r adran yn ceisio lleihau nifer yr oriau contract a bydd

y gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf yn adlewyrchu hyn. Angen sicrhau gostyngiadau wedi'u hysgogi gan angen yn hytrach na phwysau cyllidebol. Gallai digon o wybodaeth am Brexit hefyd gael effaith ar y mater hwn a gofal preswyl.

- Adroddiad cryno tudalen 5 - Oedi wrth drosglwyddo gofal. Pryderon am y cynnydd mawr ym mis Awst yn yr oedi wrth drosglwyddo gofal. Cafwyd cynnydd pellach ym mis Medi ond mae'r adran yn gobeithio y bydd hyn yn dechrau lleihau ym mis Hydref yn sgîl y mesurau a roddwyd ar waith.

- Prif adroddiad tudalen 44 - diogelu oedolion diamddiffyn - pryderon am y targed 24 awr a'r targed 7 niwrnod - dylid anelu at darged llawer uwch. Mae'r adran yn canoli cyfrifoldeb er mwyn gwella cywirdeb y mesur. Bydd y panel yn monitro'r mesur perfformiad hwn wrth symud ymlaen.

**4 Sut caiff Ymrwymiadau Polisi'r cyngor eu rhoi ar waith yn y Gwasanaethau i Oedolion**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Mark Child, Aelod y Cabinet dros Iechyd a Lles. Dywedodd wrth y panel fod y cyngor wedi cytuno ar yr ymrwymiadau polisi ym mis Gorffennaf 2017, felly cyfnod byr yn unig a gafwyd i weithio arnynt. Mae'r nodau'n ehangach na nodau'r cyngor yn unig, ac mae gan Aelodau'r Cabinet rôl i sicrhau y cyflawnir amcanion.

Cytunwyd ar y canlynol:

- Os caiff statws CAG (Coch, Ambr, Gwyrdd) ei ddefnyddio, mae angen mwy o gyd-destun ar y panel i asesu pa mor briodol yw pob statws.
- Hoffai'r panel pe bai amcanion swyddogion allweddol yn cael eu nodi'n fanylach ac yn nhermau amser.

Camau Gweithredu:

- Caiff yr adroddiad ei ailgyflwyno i'r panel ym mis Hydref 2018, a dylai gynnwys mwy o strwythur o ran sut caiff yr amcanion eu cyflawni, gan gynnwys amserlenni.

**5 Amserlen Rhaglen Waith 2017-18**

Cytunwyd ar y canlynol:
- Caiff cyfarfod ychwanegol ei gynnal i ystyried cynigion cyllideb y cyngor cyn eu cyflwyno i'r Cabinet.
- Mae angen i'r panel gael y gyllideb a nodwyd o ran symiau arian parod ynghyd â'r gweithgareddau a'r canlyniadau bras y bwriedir i'r symiau hynny eu cyflawni.

Camau Gweithredu:
- Trefnu cyfarfod ychwanegol ar gyllideb y cyngor ar 5 Chwefror 2018. Alex Williams i ddarparu gwybodaeth ychwanegol gyda chynigion y gyllideb i gynorthwyo'r panel.
- Anfon llythyr at Aelod y Cabinet yn dilyn y cyfarfod er gwybodaeth.

**6 Llythyrau**

Llythyrau a dderbyniwyd ac a ystyriwyd gan y panel.

Daeth y cyfarfod i ben am 5pm.